Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad o newidiadau sylweddol

## Cynllun Taliadau 2022/23

Mae'r datganiad hwn wedi'i gwblhau yn unol â gofynion gwybodaeth Rheolau'r Cynllun Taliadau a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021.

## Adran 1 – Cynnydd sylweddol mewn biliau

**a) Cadarnhad ynghylch a yw'r ymgymerwr yn disgwyl unrhyw gynnydd mewn biliau o fwy na 5% o'r flwyddyn flaenorol (ar gyfer math o gwsmer penodol gan dybio lefel gyson o ddefnydd) ac, os disgwylir cynnydd o'r fath:**

**(i) faint o gynnydd a ddisgwylir;**

**(ii) pa fathau o gwsmeriaid y mae'n debygol o effeithio arnynt;**

**(iii) y strategaethau ymdrin a fabwysiadwyd gan y cwmni neu pam nad oedd y cwmni o'r farn bod angen strategaethau o'r fath.**

Mae'r newid yn y biliau terfynol ar gyfer cwsmeriaid preswyl a chwsmeriaid busnes sy'n codi o Gynllun Taliadau 2022/23 wedi'i adolygu gan y Bwrdd.

Mae'r pandemig wedi rhoi pwysau ar filiau dŵr drwy effeithio ar y galw gan gwsmeriaid, ac mae effaith newidiadau i brisiau rhai nwyddau wedi rhoi mwy o bwysau ar y gyfradd chwyddiant, sy'n sylweddol uwch na'r lefelau a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Gan fod y lefel alldro yn 4.6%, roedd yn anodd i ni gadw'r cynnydd i filiau o dan 5% ac, o ganlyniad, mae ein taliadau i gwsmeriaid heb fesurydd yn dangos cynnydd o 7%. Er mwyn lliniaru i ba raddau y gwelir cynnydd mewn taliadau mewn ymateb i bwysau chwyddiannol, mae'r Bwrdd unwaith eto wedi penderfynu cyflwyno cosbau Cymhellion Cyflawni Canlyniadau disgwyliedig sy'n codi o berfformiad 2021/22 fel rhan o'r strategaeth ymdrin (gweler tabl 1 isod), ar ôl mabwysiadu dull tebyg wrth osod taliadau ar gyfer 2021/22. Gwnaeth y Bwrdd hefyd ystyried effaith y taliadau ar amrywiaeth o wahanol fathau o gwsmeriaid a gwnaeth benderfyniadau i ailgydbwyso refeniw rhwng mathau o gwsmeriaid er mwyn sicrhau rhywfaint o sefydlogrwydd o ran biliau (yn unol â Rheol 8).

Ar ôl adolygu effaith wirioneddol tariffau 2022/23, mae'n glir y bydd cwsmeriaid heb fesurydd yn gweld cynnydd o fwy na 5%, ac felly hefyd rai cwsmeriaid â mesurydd sydd â chysylltiad dŵr budr yn unig a dŵr yn unig. Bydd y Cwmni yn sicrhau bod y cwsmeriaid hyn yn ymwybodol o'r effaith bosibl ar eu bil a bydd yn gweithio gyda nhw i leihau'r effaith.

Bydd y cap ar filiau i gwsmeriaid HelpU a chwsmeriaid WaterSure Cymru yn cynyddu i sicrhau bod y tariffau hyn yn parhau i fod ar gael i'r nifer mwyaf posibl o gwsmeriaid.

Roedd taliadau 2021/22 yn cynnwys addasiad ar gyfer cosbau Cymhellion Cyflawni Canlyniadau amcangyfrifedig a gododd yn 2020/21. Mae'r rhain bellach wedi ymddangos a chyhoeddodd Ofwat ei benderfyniad mewn perthynas ag addasiadau yn ystod y cyfnod ar gyfer Cymhellion Cyflawni Canlyniadau yn 2020/21 ar 11 Tachwedd 2021.

Yn ein taliadau ar gyfer 2022/23, rydym yn cynnwys ymarfer gwirio ar gyfer y gwahaniaeth rhwng ein rhagolwg o gosbau Cymhellion Cyflawni Canlyniadau mewn perthynas â 2020/21 a'r ffigur alldro, ac rydym hefyd yn cynnwys rhagolwg o gosbau Cymhellion Cyflawni Canlyniadau a gyflwynwyd yn 2021/22.

Mae ein taliadau ar gyfer 2022/23 hefyd yn cynnwys elfen o'r refeniw a danadenillwyd gennym yn 2020/21. Fodd bynnag, er mwyn lliniaru'r effaith ar filiau cwsmeriaid, rydym wedi dewis gohirio'r gwaith o adennill rhywfaint o'r refeniw hwn tan flynyddoedd yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi dychwelyd y refeniw manwerthu preswyl a oradenillwyd yn 2020/21 oherwydd bod llai na'r disgwyl wedi manteisio ar dariffau cymdeithasol i gwsmeriaid.

Mae Tabl 2 a 3 yn dangos effaith y taliadau a gyhoeddwyd ar sampl gynrychioliadol o gwsmeriaid yn unol â Gofynion Gwybodaeth y Rheolau Taliadau.

### Tabl 2 Biliau enghreifftiol – Cwsmeriaid preswyl

Mae'r tabl isod yn dilyn Gofynion Gwybodaeth Rheolau'r Cynllun Taliadau ac yn dangos y bil sy'n codi o Gynllun Taliadau 2022/23 ar gyfer amrywiaeth o gwsmeriaid preswyl nodweddiadol a'r amrywiant o fil y flwyddyn flaenorol. Mae'r dadansoddiad hwn yn tybio bod cwsmeriaid mesuredig yn defnyddio dŵr yn gyson. Os gall y cwsmeriaid hyn leihau eu defnydd yn 2022/23 wrth i gyfyngiadau COVID-19 gael eu llacio, o gymharu â 2021/22, yna bydd llai o effaith ar y bil.

| | 2022/23 | 2021/22 | Newid | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm Bil (£) | Cyfanswm Bil (£) | Amrywiant (£) | Amrywiant (%) |
| **Preswyl** | | | | |
| **Cwsmeriaid Gwasanaeth Deuol** | | | | |
| **Gwasanaeth Deuol heb Fesurydd** | | | | |
| GA Isel | 469 | 440 | 29 | 7% |
| GA Canolig | 634 | 595 | 39 | 7% |
| GA Uchel | 812 | 762 | 50 | 7% |
| **Gwasanaeth Deuol â Mesurydd** | | | | |
| Defnydd isel o ddŵr | 293 | 282 | 11 | 4% |
| Defnydd canolig o ddŵr | 382 | 368 | 14 | 4% |
| Defnydd uchel o ddŵr | 554 | 533 | 21 | 4% |
| **Tâl Gwasanaeth Unffurf Gwasanaeth Deuol** | | | | |
| Gwasanaeth Llawn | 652 | 612 | 40 | 7% |
| **Gwasanaeth Deuol heb Fesurydd – dŵr budr yn unig** | | | | |
| GA Isel | 417 | 389 | 29 | 7% |
| GA Canolig | 582 | 543 | 39 | 7% |
| GA Uchel | 760 | 711 | 50 | 7% |
| **Gwasanaeth Deuol â Mesurydd – dŵr budr yn unig** | | | | |
| Defnydd isel o ddŵr | 262 | 248 | 14 | 6% |
| Defnydd canolig o ddŵr | 351 | 328 | 23 | 7% |
| Defnydd uchel o ddŵr | 522 | 482 | 40 | 8% |
| **Tâl Gwasanaeth Unffurf Gwasanaeth Deuol – dŵr budr yn unig** | | | | |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf – Dŵr budr yn unig | 600 | 560 | 40 | 7% |
| **Tariffau Cymdeithasol** | | | | |
| HelpU – Cwsmeriaid ar y tariff cyn 1 Awst 2020 | 236 | 221 | 15 | 7% |
| HelpU – Cwsmeriaid ers 1 Awst 2020 | 256 | 250 | 16 | 7% |
| WaterSure Cymru | 374 | 360 | 14 | 4% |
| **Dŵr yn unig** | | | | |
| GA canolig heb fesurydd | 251 | 236 | 15 | 6% |
| Defnydd canolig o ddŵr â mesurydd | 147 | 140 | 7 | 5% |
| **Dŵr Gwastraff yn Unig – gwasanaeth carthffosiaeth llawn** | | | | |
| GA canolig heb fesurydd | 383 | 359 | 24 | 7% |
| Defnydd canolig o ddŵr â mesurydd | 235 | 228 | 7 | 3% |
| **Dŵr Gwastraff yn Unig – dŵr budr yn unig** | | | | |
| GA canolig heb fesurydd | 331 | 307 | 24 | 8% |
| Defnydd canolig o ddŵr â mesurydd | 204 | 188 | 16 | 9% |

**Tabl 3: Biliau enghreifftiol – Cwsmeriaid dibreswyl**

Mae'r tabl isod yn dangos y bil sy'n codi o Gynllun Taliadau 2022/23 ar gyfer amrywiaeth o gwsmeriaid busnes nodweddiadol a'r amrywiant o fil y flwyddyn flaenorol (gan dybio bod cwsmeriaid mesuredig yn defnyddio dŵr yn gyson).

| | 2022/23 | 2021/22 | Newid | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y Bil (£) | Cyfanswm y Bil (£) | Amrywiant (£) | Amrywiant (%) |
| **Dibreswyl** | | | | |
| **Gwasanaeth Deuol heb Fesurydd** | | | | |
| GA Canolig | 796 | 748 | 48 | 6% |
| **Gwasanaeth Deuol Safonol â Mesurydd** | | | | |
| Defnydd canolig o ddŵr | 1,853 | 1,763 | 90 | 5% |
| **Dŵr yn Unig** | | | | |
| GA Canolig | 319 | 300 | 19 | 6% |
| Defnydd cyfartalog o ddŵr | 758 | 714 | 44 | 6% |
| **Tariffau Diwydiannol** | | | | |
| Band 1 (50 Ml – 100 Ml) | 96,528 | 90,818 | 5,710 | 6% |
| Band 2 (100 Ml – 250 Ml) | 194,189 | 182,693 | 11,495 | 6% |
| Band 3 (250 Ml – 500 Ml) | 379,527 | 357,043 | 22,483 | 6% |
| Band 4 (500 Ml – 1000 Ml) | 700,652 | 659,124 | 41,527 | 6% |
| **Dŵr Anyfadwy** | | | | |
| Band A – Dŵr Heb ei Drin | 1,914 | 1,813 | 101 | 6% |
| Band A – Triniaeth Rannol | 1,390 | 1,318 | 72 | 5% |
| Band B – Dŵr Heb ei Drin | 199,027 | 187,635 | 11,392 | 6% |
| Band B – Triniaeth Rannol | 1,055,615 | 997,728 | 57,886 | 6% |
| **Dŵr Gwastraff yn Unig** | | | | |
| GA Canolig | 477 | 448 | 29 | 6% |
| Defnydd cyfartalog o ddŵr | 1,095 | 1,049 | 46 | 4% |
| **Elifion Masnach** | | | | |
| Cyfanswm y Bil Elifion Masnach ( <100Ml) | 10,876 | 10,362 | 514 | 5% |
| Cyfanswm y Bil Elifion Masnach (>100Ml) | 407,838 | 390,101 | 17,737 | 5% |